CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol): asesiad effaith integredig

Asesiad o effaith y bil ar gyfer diwygio rhestrau ymgeiswyr etholiadol.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 11 Mawrth 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 11 Mawrth 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-rhestrau-ymgeiswyr-etholiadol-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Adran 1

Adran 2

Adran 3

Adran 4

Adran 5

Adran 6

Adran 7

Adran 8



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-rhestrau-ymgeiswyr-etholiadol-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Adran 1: Pa gamau gweithredu y mar Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

Yn unol ag argymhellion y **Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd**, (y Pwyllgor Diben Arbennig), a oedd yn cynnwys “y dylid ethol y Senedd gyda chwotâu rhywedd statudol integredig” (**argymhelliad 11**) mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth gyda'r diben o wneud y Senedd yn ddeddfwrfa fwy effeithiol ar gyfer, ac ar ran, pobl Cymru. Gan gydnabod nad yw'r Senedd ar hyn o bryd yn adlewyrchu cyfansoddiad poblogaeth Cymru o ran rhywedd, nod y ddeddfwriaeth yw sicrhau bod y Senedd yn adlewyrchu'n fras y boblogaeth y mae'n ceisio ei chynrychioli a'i gwasanaethu, yn enwedig o ran cynrychiolaeth menywod.

Yn gryno, mae darpariaethau’r Bil yn darparu ar gyfer y canlynol:

- Rhaid i o leiaf 50% o ymgeiswyr ar restrau pleidiau gwleidyddol fod yn fenywod (meini prawf gosod fertigol)
- Rhaid i o leiaf 50% o restrau ymgeiswyr plaid ledled Cymru fod â menyw yn y safle cyntaf (meini prawf gosod llorweddol)
- Rhaid i ymgeisydd nad yw'n fenyw ar restr gael ei ddilyn yn syth gan ymgeisydd sy'n fenyw ar y rhestr, oni bai ei fod yn olaf ar y rhestr (meini prawf gosod fertigol)
- Bydd ymgeiswyr yn nodi a ydynt yn fenyw ai peidio fel rhan o'r broses enwebu
- Bydd gorfodi'r meini prawf gosod fertigol yn cael ei wneud gan Swyddogion Canlyniadau Etholaethol (SCEau), a bydd gorfodi'r meini prawf gosod llorweddol yn cael ei wneud gan Swyddog Cydymffurfiaeth Enwebiadau Cenedlaethol (SCEC) newydd ar y cyd â'r SCEau perthnasol.

Ystyriwyd effaith y ddeddfwriaeth hon ar y pum ffordd o weithio a nodir yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru)**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-rhestrau-ymgeiswyr-etholiadol-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Bernir bod gan ddeddfu i ddiwygio’r Senedd fanteision parhaus yn y tymor hir o ran gallu’r Senedd i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif, gwneud deddfau a chynrychioli pobl Cymru.

Bydd cynyddu nifer y menywod yn y Senedd yn dod â nifer o fanteision yn y **tymor hir**. Mae'r Memorandwm Esboniadol sydd wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r Bil yn rhoi rhagor o fanylion, ond yn gryno mae ymchwil yn awgrymu y gall deddfwrfa sydd â chydbwysedd o ran rhywedd ei gwneud yn fwy effeithiol am fod canfyddiad bod cynrychiolwyr sy'n fenywod yn gwneud y canlynol:

- Rhoi blaenoriaeth i faterion polisi a deddfwriaethol gwahanol, megis y rhai sy'n effeithio ar blant, teuluoedd a chymdeithas sifil
- Rhoi blaenoriaeth i fathau penodol o waith fel cynrychiolwyr, gan gynnwys gweithio ar draws y rhaniad gwleidyddol ar faterion o ddiddordeb cyffredin (**Clayton 2021**)
- Hyrwyddo ffyrdd penodol o weithio, gan gynnwys diwylliannau ac arferion gwaith (**Cowper-Coles 2021**)
- Annog safon uwch o ymgeiswyr yn gyffredinol (**Aldrich a Daniel 2020** a **Weeks a Baldez 2014**)
- Creu modelau rôl mewn swyddi arweinyddol gwleidyddol (**Campbell a Wolbrecht** 2006 and **Ladam et al 2018**)
- Cynyddu cynrychiolaeth grwpiau lleiafrifol (**Clayton 2021** t247 and **Hughes 2011**)
- Lleihau'r risg o lygredigaeth a gweithgarwch anfoesegol (**Jha a Sudipta 2015** a **Dollar et al 1999**).

Hefyd, bydd deddfu i ddiwygio’r Senedd yn helpu i liniaru amrywiaeth o bryderon a nodwyd yn flaenorol ynghylch gallu’r Senedd i graffu’n effeithiol ac ymgysylltu â’r bobl y mae’n eu gwasanaethu (**Senedd sy'n gweithio i Gymru** 2017). Mae ymchwil yn dangos y gall gwella amrywiaeth deddfwrfa, gan gynnwys cynyddu cynrychiolaeth ymhlith menywod, gryfhau dilysrwydd penderfyniadau a wneir gan Aelodau o'r Senedd (ASau) (**Atkeson a Carrillo 2007** a **Ulbig 2007**).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-rhestrau-ymgeiswyr-etholiadol-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae ymchwil yn awgrymu hefyd y gall cyflwyno cwotâu arwain at nifer o effeithiau cadarnhaol; gall arwain at arallgyfeirio materion a drafodir gan ddeddfwrfa (gan gynnwys, er enghraifft, meysydd polisi sy'n ymwneud â menywod, plant a theuluoedd - **Cowper-Coles 2021** t10); creu newid mewn diwylliant tuag at ddulliau arweinyddiaeth mwy cynhwysol a chydweithredol; a hybu newidiadau i'r ffordd y mae'r ddeddfwrfa yn gweithredu, er enghraifft, drwy fformat dadleuon ac oriau eistedd (**Cowper-Coles 2021** t8). Bydd yr effeithiau cadarnhaol posibl hyn, ynghyd â'r effeithiau cadarnhaol o ganlyniad i **Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)** (os caiff ei ddeddfu), oll yn cyfrannu at wneud y Senedd yn fwy effeithiol, gan roi mwy o hyder i bobl Cymru yn ein sefydliad democrataidd cenedlaethol ac o bosibl atal ystod o faterion a phryderon a nodwyd yn flaenorol mewn perthynas â gallu'r Senedd i graffu ar Lywodraeth Cymru yn effeithiol ac ymgysylltu â'r bobl y mae'n eu gwasanaethu.

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol allweddol wedi'i gynnal wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth, gan gynnwys partneriaid cyflawni allanol, pleidiau gwleidyddol, Comisiwn y Senedd a nifer bach o sefydliadau'r trydydd sector. Bu ymgysylltu a chydweithio arbennig o gryf ag ymarferwyr etholiadol sydd wedi cyfrannu at drafodaethau â ffocws ar oblygiadau ymarferol y polisi. Bu cydweithio mewnol hefyd o fewn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys o ran integreiddio cwotâu â'r system etholiadol bresennol a chysylltu â pholisïau perthnasol eraill Llywodraeth Cymru.

Diben y ddeddfwriaeth yw gwneud y Senedd yn ddeddfwrfa fwy effeithiol ar gyfer, ac ar ran, pobl Cymru. Mae'n gwneud hyn drwy gynyddu'r siawns o ethol cyfran o fenywod i'r Senedd sy'n adlewyrchu'n fras gyfran y menywod ym mhoblogaeth Cymru.

Datblygwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gyd-fynd â'r Bil, sy'n ymdrin â chostau a goblygiadau arbed y ddeddfwriaeth. Bydd gwerth am arian yn parhau i gael ei ystyried yn llawn wrth gyflawni a gweithredu’r diwygiadau.

Mae deddfwriaeth sylfaenol yn angenrheidiol fel rhan o'r mecanwaith cyflawni ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-rhestrau-ymgeiswyr-etholiadol-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gyfer y cynigion a nodir uchod.

# Adran 2. Beth fydd yr effaith ar lesiant cymdeithasol?

## 2.1 Pobl a chymunedau

Mae cyflwyno cwotâu ar gyfer etholiadau'r Senedd yn rhan o nod Llywodraeth Cymru o wneud y Senedd yn ddeddfwrfa fwy effeithiol ar gyfer, ac ar ran, pobl Cymru. Mae hyn yn cynnwys y manteision posibl y gall rhagor o ASau sy'n fenywod ddod â hwy i'r Senedd o ran ffocws cryfach, er enghraifft, ar lunio polisïau a dadleuon ar faterion sy'n bwysig i fenywod, plant a theuluoedd (**Cowper-Coles 2021** t10). Gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar grwpiau penodol o bobl, er enghraifft plant, menywod, teuluoedd a chymunedau, o ganlyniad i gynnydd yn y materion sy'n ymwneud â hwy yn cael eu cyflwyno i'w trafod.

Bydd cwotâu yn cael effaith ar grwpiau penodol o bobl ac asesir yr effeithiau hyn yn fanylach yn yr Asesiad cysylltiedig o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol.

## 2.2 Hawliau plant

Ni fernir y bydd y cynigion i gyflwyno cwotâu ymgeiswyr ar gyfer etholiadau'r Senedd yn cael effeithiau andwyol ar hawliau plant a phlant, gan fod angen i ddarpar ASau fod yn o leiaf 18 oed cyn y diwrnod y cânt eu henwebu er mwyn sefyll mewn etholiad. Er hynny, fel y mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil yn ei nodi, byddai ymchwil yn awgrymu bod gan nifer cynyddol o gynrychiolwyr sy'n fenywod mewn llywodraeth y potensial i arwain at sefyllfa lle

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-rhestrau-ymgeiswyr-etholiadol-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

bydd deddfwrfeydd yn canolbwyntio'n gynyddol ar amrywiaeth o faterion cymdeithasol a theuluol (**Clayton 2021** t241).Gallai hyn felly arwain at fwy o ddadleuon yn y Senedd ar faterion sy'n ymwneud â phlant, eu hawliau a'u teuluoedd, yn ogystal â chraffu mwy effeithiol ar gynigion Llywodraeth Cymru yn y meysydd hyn.

Ni nodwyd unrhyw effeithiau uniongyrchol ar hawliau plant o ganlyniad i'r cynigion hyn ac felly ni chynhaliwyd asesiad manwl llawn o'r effaith ar hawliau plant. Er hynny, mae **Asesiad llawn o'r Effaith ar Hawliau Plant** wedi'i gwblhau a'i gyhoeddi mewn perthynas â'r cynigion ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a fydd yn arwain at ddiwygiadau ehangach i'r Senedd.

## 2.3 Cydraddoldeb

Cynhaliwyd **Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol** wedi'i gynnal.

## 2.4 Prawfesur Polisïau o Safbwynt Anghenion Cefn Gwlad

Yn fras, ni fydd y cynigion i gyflwyno cwotâu ymgeiswyr ar gyfer etholiadau'r Senedd yn cael unrhyw effeithiau penodol nac uniongyrchol ar bobl mewn ardaloedd gwledig nac ar gymunedau gwledig. Bydd y cwotâu yn gymwys yn yr un ffordd i bob ymgeisydd, p'un a ydynt yn dod o ardaloedd gwledig ai peidio, ac i bob etholaeth, gan gynnwys y rhai a allai fod yn ardaloedd gwledig yn bennaf.

Gan nad oes unrhyw effeithiau penodol nac unigryw wedi'u nodi ar bobl mewn ardaloedd gwledig a chymunedau gwledig o ganlyniad i gwotâu rhywedd, ni chynhaliwyd asesiad effaith prawfesur gwledig llawn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-rhestrau-ymgeiswyr-etholiadol-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## 2.5 Iechyd

Mae ymchwil yn dangos y gall nifer cynyddol o gynrychiolwyr benywaidd mewn llywodraethau effeithio ar natur a phwnc dadleuon, gan arwain, er enghraifft, at fwy o ffocws ar faterion cymdeithasol, addysg, iechyd a theuluol (**Cowper-Coles 2021** t10). Os bydd cwotâu yn llwyddo i gynyddu cyfran y menywod yn y Senedd, mae'n rhesymol casglu y gallem weld nifer cynyddol o ddadleuon yn y Senedd ar iechyd, gan gynnwys iechyd menywod ac iechyd meddwl, yn ogystal â mwy o ffocws ar graffu ar gynigion Llywodraeth Cymru yn y meysydd hyn.

Mae potensial y bydd y cynigion yn cymell mwy o fenywod i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, ac yn arwain at y manteision iechyd cysylltiedig a allai ddeillio o hynny o safbwynt ymdeimlad o gyflawniad personol a phroffesiynol a chynhwysiant. Mae'n bosibl y gallai fod effaith negyddol bosibl ar iechyd meddwl rhai unigolion a allai, oherwydd eu hamgylchiadau penodol, deimlo'n bryderus ynghylch nodi a ydynt yn fenyw ai peidio, ac a allai ystyried hyn yn rhwystr i'w cyfranogiad fel ymgeisydd ar gyfer etholiad. Yn seiliedig ar ein hasesiad presennol o'r effaith debygol, mae'n ymddangos bod nifer yr ymgeiswyr posibl i'r Senedd a allai gael eu heffeithio fel hyn yn debygol o fod yn fach iawn ac y bydd natur yr effaith yn amrywio yn dibynnu ar amgylchiadau personol penodol pob unigolyn. Mae'r dadansoddiad o'r effaith negyddol bosibl hon wedi'i nodi'n fanylach yn yr **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** sydd ar gael fan hyn. Ar y sail hon felly, ni chynhaliwyd asesiad llawn o'r effaith ar iechyd.

Gan nad yw'r effeithiau y llwyddwyd i'w nodi ar hyn o bryd yn debygol o gael effaith negyddol uniongyrchol neu sylweddol ar iechyd y mwyafrif o ymgeiswyr, ni chynhaliwyd asesiad llawn o'r effaith ar iechyd.

## 2.6 Preifatrwydd

Cynhaliwyd **asesiad llawn o'r effaith ar ddiogelu data**, ac mae ar gael yn llawn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-rhestrau-ymgeiswyr-etholiadol-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

fan hyn.

# Adran 3. Beth fydd yr effaith ar lesiant diwylliannol a’r gymraeg?

## 3.1 Llesiant diwylliannol

Ni fydd y cynigion i gyflwyno cwotâu ymgeiswyr ar gyfer etholiadau'r Senedd, gyda'r nod o wneud y Senedd yn ddeddfwrfa fwy effeithiol, yn effeithio mewn unrhyw ffordd sylweddol ar lesiant a threftadaeth ddiwylliannol.

## 3.2 Y Gymraeg

Mae'n annhebygol y bydd y cynigion i gyflwyno cwotâu ymgeiswyr ar gyfer etholiadau'r Senedd yn effeithio'n uniongyrchol ar y Gymraeg. Er hynny, efallai y bydd rhywfaint o effaith anuniongyrchol ar ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr **asesiad o'r Gymraeg** sydd wedi'i gynnal, ac sydd ar gael yn llawn fan hyn.

# Adran 4. Beth fydd yr effaith ar lesiant economaidd?

Mae cefnogi twf yn economi Cymru, a thrwy hyn fynd i’r afael â thlodi, wrth galon Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-rhestrau-ymgeiswyr-etholiadol-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## 4.1 Busnes, y cyhoedd ac unigolion

Ni fernir bod darpariaethau'r Bil yn effeithio (naill ai'n fuddiol neu'n negyddol) ar lesiant economaidd ac o ganlyniad, ni chynhaliwyd Asesiad Effaith Economaidd llawn.

Darperir asesiad o'r costau sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a gynhwysir ym Memorandwm Esboniadol y ddeddfwriaeth.

## 4.2 Y sector cyhoeddus, gan gynnwys llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill

Gan fod y cynigion yn cynnwys dyletswyddau newydd o ran pleidiau gwleidyddol cofrestredig a'u hymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholiad i'r Senedd, yr effaith uniongyrchol ar y Comisiwn Etholiadol fydd bod rhaid iddo ddiweddaru ei ganllawiau ar gyfer pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr a SCEau o ganlyniad i newidiadau yn sgil gweithredu'r cwotâu. Bydd effaith hefyd ar SCEau a fydd â rôl wrth orfodi'r rheolau cwota.

Rydym wedi ymgysylltu â'r Comisiwn Etholiadol, y pleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd a chynrychiolwyr ymarferwyr etholiadol wrth ddatblygu'r cynigion. Mae hyn wedi ein galluogi i ddatblygu cynigion sy'n integreiddio'n effeithiol â'r drefn gyn-etholiadol bresennol (gan gynnwys unrhyw newidiadau y gellir eu gwneud o ganlyniad i'r darpariaethau ym Mil (Aelodau ac Etholiadau) Senedd Cymru) ac sy'n lleihau unrhyw effaith negyddol neu anghymesur ar brosesau sefydledig. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r rhanddeiliaid allweddol hyn wrth inni ddatblygu'r is-ddeddfwriaeth sy'n ofynnol i roi'r cwotâu ar waith.

Cynhaliwyd asesiad o'r costau o ganlyniad i'r dyletswyddau ychwanegol sydd i'w gosod ar SCEau awdurdodau lleol a chreu rôl newydd y SCEC. Mae manylion pellach i'w gweld yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-rhestrau-ymgeiswyr-etholiadol-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ddeddfwriaeth. Drwy ymgysylltu â'r Comisiwn Etholiadol, aseswyd na fydd costau ychwanegol arno o ganlyniad i'r cwotâu.

### 4.3 Y Trydydd Sector

Yn fras, ni fydd y cynigion i gyflwyno cwotâu ymgeiswyr ar gyfer etholiadau'r Senedd yn effeithio'n sylweddol ar y trydydd sector, heblaw y gallant ddarparu ffocws newydd a phenodol ar gyfer gwaith nifer bach o sefydliadau, gan weithio i hyrwyddo cynrychiolaeth fwy amrywiol mewn bywyd cyhoeddus a swyddi arwain.

### 4.4 Effaith ar gyfiawnder

Cynhaliwyd **asesiad cynhwysfawr o effaith y cynigion ar y system gyfiawnder**, ac mae ar gael yn llawn fan hyn.

## Adran 5. Beth fydd yr effaith ar lesiant amgylcheddol?

Nid yw'r cynigion yn effeithio ar adnoddau naturiol, bioamrywiaeth, newid hinsawdd, cynefinoedd na llesiant amgylcheddol, er bod rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu y gallai menywod fod yn fwy tueddol o ganolbwyntio ar faterion megis newid hinsawdd, diogelu'r amgylchedd a safonau (**Piscopo 2020**). Gan nad oes unrhyw effeithiau uniongyrchol ar yr amgylchedd, gan gynnwys bioamrywiaeth, wedi'u nodi, ni chynhaliwyd Asesiad llawn o'r Effaith ar Fioamrywiaeth.

## Adran 6. Y ddyletswydd economaidd-

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-rhestrau-ymgeiswyr-etholiadol-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## gymdeithasol. Beth fydd yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol?

Yn gyffredinol, ni fydd y cynigion yn cael unrhyw effeithiau andwyol ar anfantais economaidd-gymdeithasol. Felly, ni chynhaliwyd Asesiad llawn o'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

## Adran 7. Cofnod o’r asesiadau effaith llawn gofynnol

Angen asesiadau effaith llawn:

- Cydraddoldeb
- Preifatrwydd
- Y Gymraeg
- Asesiad Effaith Rheoleiddiol
- Cyfiawnder

## Adran 8. Casgliad

Gan fod y cynigion i gyflwyno cwotâu ymgeiswyr ar gyfer etholiadau'r Senedd wedi'u datblygu'n gyflym i roi'r argymhellion yn adroddiad y **Pwyllgor Diben Arbennig** ar waith, ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus llawn. Yn hytrach, mae ymgysylltu wedi'i dargedu â rhanddeiliaid allanol perthnasol wedi'i gynnal sydd wedi helpu i lywio'r asesiad effaith hwn. Mae hyn wedi cynnwys ymgysylltu â'r canlynol:

- Y rhai sy'n ymwneud â gweinyddu a chynnal etholiadau'r Senedd, gan

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-rhestrau-ymgeiswyr-etholiadol-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gynnwys gweinyddwyr etholiadol a chynrychiolwyr SCEau
- Y Comisiwn Etholiadol
- Comisiwn y Senedd
- Grwpiau a sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol
- Pleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd (a hwylusir gan y Comisiwn Etholiadol)
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth, rhoddwyd ystyriaeth i safbwyntiau a fynegwyd mewn ymgyngoriadau ac arolygon ac adroddiadau ar ddiwygio'r Senedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae ymchwil a wnaed gan arbenigwyr ym maes cwotâu rhywedd etholiadol a chynrychiolaeth ymhlith menywod mewn gwleidyddiaeth hefyd wedi cael ei hystyried.

Mae'r asesiad effaith integredig hwn yn ystyried goblygiadau'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ogystal ag mewn perthynas â meysydd polisi allweddol eraill. Wrth anelu at y nod o sicrhau bod y Senedd yn adlewyrchu'n fras gydbwysedd poblogaeth Cymru o ran rhywedd, ystyriwyd y bydd cwotâu yn cael effaith gadarnhaol ar wneud y Senedd yn ddeddfwrfa fwy effeithiol yn y tymor hwy, gan atal a mynd i'r afael ag ystod o faterion a phryderon a nodwyd yn flaenorol mewn perthynas â gallu'r Senedd i graffu ar Lywodraeth Cymru yn effeithiol ac ymgysylltu â'r bobl y mae'n eu gwasanaethu. Bydd cynyddu cynrychiolaeth ymhlith menywod hefyd yn helpu i gynyddu ei dilysrwydd, oherwydd mae ymchwil yn awgrymu bod cynyddu cynrychiolaeth ymhlith menywod yn cryfhau dilysrwydd penderfyniadau a wneir gan ddeddfwrfa (**Atkeson a Carrillo 2007**).

Wrth ystyried y model ar gyfer cwotâu ac wrth ddylunio'r ddeddfwriaeth bu cydweithio â phartneriaid a rhanddeiliaid ac maent wedi cyfrannu at y broses. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r newidiadau ehangach a gynigir fel rhan o

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-rhestrau-ymgeiswyr-etholiadol-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ddiwygio'r Senedd a'u heffaith gronnol ar brosesau sefydledig a chapasiti timau etholiadol awdurdodau lleol, gyda'r bwriad o integreiddio ag arferion etholiadol presennol cyn belled ag y bo modd. Bydd y dull hwn yn cael ei gynnal wrth roi'r ddeddfwriaeth ar waith.

Mae asesiadau manwl unigol o'r effaith wedi'u paratoi pan fo'r asesiad hwn wedi nodi y gallai'r Bil gael effeithiau penodol, neu pan fo gofyniad deddfwriaethol i wneud hynny. Lluniwyd asesiadau effaith unigol mewn perthynas â Chydraddoldeb a Hawliau Dynol; Diogelu Data; y Gymraeg a Chyfiawnder.

Mae'r prif effeithiau a nodwyd yn effeithiau mewn perthynas â chydraddoldeb a hawliau dynol, preifatrwydd a diogelu data.

Diben y Bil yw creu Senedd fwy effeithiol, fel rhan o'r pecyn o ddiwygiadau gyda'r diben hwnnw. Mae'n anelu at wneud hynny drwy sicrhau aelodaeth o'r Senedd sy'n cynrychioli'n fras gydbwysedd poblogaeth Cymru o ran rhywedd. Bydd y cynigion yn golygu y bydd angen i bleidiau gwleidyddol ddewis cyfran ddigonol o ymgeiswyr sy'n fenywod i allu cydymffurfio â'r rheolau cwota ac y bydd angen gosod ymgeiswyr sy'n fenywod yn gymesur mewn safleoedd ar restrau lle mae ganddynt obaith realistig o gael eu hethol.

Mae ymchwil yn awgrymu y gall cynyddu cynrychiolaeth menywod arwain at ganlyniadau cadarnhaol o ran effeithiolrwydd deddfwrfa, gan gynnwys: mwy o ffocws ar faterion polisi a deddfwriaethol sy'n bwysig i fenywod, plant a chymdeithas sifil; creu modelau rôl cadarnhaol mewn swyddi arwain i fenywod a merched; a safon uwch o ymgeiswyr yn gyffredinol.

Nid oes dim yn y rheolau cwota ynghylch cyfran a gosodiad menywod ar restrau sy'n atal unrhyw unigolyn rhag sefyll mewn etholiadau. Fodd bynnag, nodwyd y gallai'r gofyniad i bob ymgeisydd ddarparu gwybodaeth am rywedd fel rhan o'r broses enwebu gael effaith negyddol ar rai ymgeiswyr ar y sail y gallent deimlo'n bryderus ynghylch darparu gwybodaeth o'r fath. Bydd nifer yr ymgeiswyr sy'n debygol o gael eu heffeithio yn fach iawn a bydd natur yr effaith yn amrywio yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-rhestrau-ymgeiswyr-etholiadol-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

dibynnu ar amgylchiadau personol ymgeiswyr unigol.

Nodwyd hefyd y gallai fod effaith ar rai ymgeiswyr posibl, yn benodol rhai dynion a allai gael eu gosod mewn safle llai ffafriol ar restrau eu pleidiau ar brydiau, neu beidio â chael eu gosod ar restr o gwbl, o ganlyniad i'r rheolau cwota. Gall hyn olygu na fyddant yn cael eu hethol pan y gallent fod wedi cael eu hethol. Fodd bynnag, bernir bod y dull gweithredu yn gymesur wrth gyflawni'r nod o Senedd fwy effeithiol, gan fod menywod wedi bod yn fwyafrif heb gynrychiolaeth ddigonol.

Datblygwyd Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data, sy'n nodi'r effaith a ragwelir o ran rhannu gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â rhywedd ymgeisydd. Mae'r asesiad manylach hwn yn darparu gwybodaeth am y sail gyfreithiol ar gyfer casglu a phrosesu'r wybodaeth a'r camau a gymerir i ddiogelu'r wybodaeth sensitif hon fel rhan o'r broses etholiadol. Mae hefyd yn cydnabod yr effaith negyddol bosibl i rai ymgeiswyr o orfod nodi eu rhywedd at ddiben gweithredu a gorfodi'r ddeddfwriaeth yn effeithiol ac y gallai'r ymgeiswyr hyn ystyried hyn yn rhwystr rhag cymryd rhan. Er y bydd gofyn i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth bersonol at ddibenion rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith yn effeithiol, ni chaiff mwy o wybodaeth nag sy'n hanfodol at y diben hwnnw ei chasglu. Fel rheolyddion data, pleidiau gwleidyddol cofrestredig, SCEau a'r SCEC sy'n gyfrifol yn y pen draw am y prosesu data a bydd yn ofynnol iddynt gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data. Disgwylir y bydd yr wybodaeth sy'n ymwneud â rhywedd yn cael ei chasglu fel estyniad o'r broses enwebu ymgeiswyr bresennol, a bydd ymgeiswyr yn gyfarwydd â'r broses hon.

Nodwyd hefyd y bydd effaith ar rai pleidiau gwleidyddol y gallai fod angen iddynt ddewis mwy o ymgeiswyr sy'n fenywod er mwyn cydymffurfio â'r rheolau cwota, er y bydd hyn yn amrywio yn dibynnu ar fan cychwyn plaid o safbwynt amrywiaeth rhywedd ymhlith ei llif presennol o ymgeiswyr. Felly, gall y gofyniad i ddewis mwy o ymgeiswyr benywaidd effeithio ar allu'r pleidiau i gyflwyno'r rhestr o ymgeiswyr a ffefrir ganddynt.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-rhestrau-ymgeiswyr-etholiadol-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Nod y trothwy isaf o 50% ar gyfer y cwota a'r meini prawf gosod yw sicrhau cydbwysedd o ran rhywedd ymhlith ymgeiswyr, gan sicrhau nad yw ymgeiswyr sy'n fenywod yn cael eu gosod ar waelod rhestrau ymgeiswyr y pleidiau lle maent yn llai tebygol o gael eu hethol. Bwriedir i'r model fod yn syml ac yn syml i'w weithredu, ac mae'n anelu at gyflawni'r nod cyfreithlon o Senedd fwy effeithiol mewn ffordd gymesur.

Mae'r Bil yn sicrhau bod gan Weinidogion Cymru y pwerau i ddarparu ar gyfer llawer o'r manylion gweithredol mewn Gorchymyn a wneir o dan adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Bydd ymgynghoriad ar newidiadau i'r is-ddeddfwriaeth berthnasol yn cael ei gynnal maes o law.

Mae'n bwysig bod y cynigion yn cael eu monitro a'u hadolygu'n briodol am eu heffeithiolrwydd ac am eu heffaith ar bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr, ymarferwyr etholiadol, y broses etholiadol a'r Senedd. Am y rheswm hwn, mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol yn cynnwys darpariaethau i alluogi'r Senedd, os bydd yn cytuno, i sefydlu pwyllgor y Senedd i gynnal adolygiad o weithrediad ac effaith y darpariaethau cwota. Daw darpariaethau'r adolygiad i rym yn dilyn etholiad y Senedd lle bydd y cwotâu yn gymwys am y tro cyntaf (mae hyn wedi'i gynllunio ar hyn o bryd ar gyfer etholiad 2026). Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymateb i unrhyw adroddiad sy'n deillio o adolygiad o'r fath.

Gan i'r cynigion i gyflwyno cwotâu ar gyfer etholiadau'r Senedd ddeillio o'r Senedd ei hun drwy sefydlu'r Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad yn 2017 a'i adroddiad, adroddiad y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd yn 2022 ac adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig yn fwy diweddar, bernir ei bod yn briodol bod y Senedd yn cynnal yr adolygiad hwn, naill ai fel rhan o'i hadolygiad o effaith y pecyn cyfan i ddiwygio'r Senedd, neu ar wahân iddo. Mae gwybodaeth bellach am y mecanwaith adolygu wedi'i nodi ym Memorandwm Esboniadol y Bil.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r effeithiau sy'n deillio o'r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-rhestrau-ymgeiswyr-etholiadol-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ddeddfwriaeth yn ystod y broses graffu a'i rhoi ar waith, gan gynnwys adolygu ei hasesiadau effaith fel sy'n angenrheidiol ac yn briodol.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/bil-senedd-cymru-rhestrau-ymgeiswyr-etholiadol-asesiad-effaith-integredig-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.